

Sul y Genhadaeth

Darlleniad: Luc 9: 1-6, 10: 1-12

Hollalluog Dduw, bendithia ni fel y disgyblion annwyl gynt. Cynorthwya ni i sylweddoli ein breintiau a chydnabod y gwaith sydd o'n blaen fel aelodau o Eglwys Iesu Grist. Dymunwn gydnabod yn ddiolchgar mai efengylwyr ydym, wedi ein galw i lafurio'n ddiwyd mewn cariad ac amynedd i sefydlu dy deyrnas ym mywyd ein cenedl. Diolchwn i ti am roddi inni'r efengyl sanctaidd ac arweinyddion ymroddedig ar hyd yr oesoedd. Helpa ni drwy nerth yr Ysbryd Glân i fynd i mewn i'w llafur â llawenydd. Bendithia ni fel y bendithiaist eu llafur hwy. Cyfeillion a gysegrodd eu doniau, eu hamser a'u hamynedd yn ddiflino a dirwgnach i gyhoeddi'r efengyl lân gydag arddeliad ac argyhoeddiad. Diolchwn i ti am gerddorion, emynwyr a llenorion a gyfrannodd mor hael i fywyd ysbrydol ein cenedl. Mawrygwn dy enw am roddi i ni, fel yn y dyddiau gynt, genhadon i ddiwygio ein cenedl mewn cariad ac i fwynhau heddwch. Drwy rym dy Ysbryd Glân rhanna anchwiliadwy olud Crist ein Gwardedwr. Ein gweddi a erys yn daer o hyd, gan fenthyg geiriau'r emynydd:

‘Bywha dy waith, O! Arglwydd mawr,
Dros holl derfynau'r ddaear lawr,
Trwy roi tywalltiad nerthol iawn,
O'r Ysbryd Glân, a'i ddwyfol ddawn.’

Derbyn ein diolch am dy ofal di-baid drosom heddiw yn y gwaith. Cynorthwya ni i ufuddhau i'th gynghorion da, a chadw ni fel eglwys rhag bod yn amharod i ufuddhau i'th alwad. Helpa ni i fod yn ddewr gan ymateb yn brydlon i apêl dy gariad. Gwna ni'n ddoeth ac addfwyn a rho inni galon dyner i ddeall amgylchiadau anodd a chreulon ein hoes. Rho inni glustiau i wrando, llygaid i weld a dwylo parod i helpu:

‘Dyro Dduw dy nawdd, ac yn nawdd nerth,
Ac yn nerth ddeall, ac yn neall gwybod,
Ac yng ngwybod, gwybod y cyfiawn,
Ac yng ngwybod y cyfiawn, ei garu,

Ac o garu, caru pob hanfod,
Ac ym mhob hanfod, caru Duw,
Duw a phob daioni.'

Boed i ni, fel y disgyblion annwyl gynt, dderbyn yr her i wynebu'r byd a rhannu goleuni'r efengyl drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Cadw ni yn y golau:

'Cymer di fy nwylaw'n rhodd,
Fyth i wneuthur wrth dy fodd.'

Ar y Sul arbennig hwn, Sul y Genhadaeth, yn awr ein Tad deisyfwn i ti gofio'n garedig y cenhadon sydd yn y maes. Gweddïwn dros yr holl genhadon y gwyddom amdanynt sy'n wynebu anawsterau a pheryglon enbyd. Mewn gwlad sy'n ddieithr iddynt, mae'r iaith yn anodd, y bobl yn wahanol eu traddodiad a'u cred. Gweddïwn dros y rhai sy'n brwydro dros gyfiawnder a hawliau dynol, yn wynebu creulondeb ac erlid bob dydd yn eu gwaith; dros gyfeillion sy'n ceisio gofalu am y gwan a'r llesg heb ddigon o adnoddau, bwyd na diod - cynifer wedi wynebu sychder neu lifogydd ond yn dal i geisio gweinyddu cymorth a chysur mewn caledi. Nid yn unig rydym yn edmygu'r bobl hyn, ond gwyddom y dylem eu helpu mewn modd ymarferol. Drwy gyfrwng ein gweddi a thrwy dy gymorth, O! Dduw, rho arweiniad i ni fel eglwys. Rho inni'r awydd a'r arweiniad i allu helpu'r cenhadon hyn i lwyddo yn eu gwaith er clod i ti.

'Cymer di fy nwylaw'n rhodd,
Fyth i wneuthur wrth dy fodd;
Cymer, Iôr, fy neudroed i,
Gwna hwy'n weddaidd erot ti.'

Ymhob rhan o'r winllan helpa ni i ddwyn ffrwyth. Llusern yw dy Air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr. Arwain ni fel Cristnogion i weithio'n ddi-feth yn ystod ein bywyd fel y gweithiodd y cenhadon gynt. Clyw ein gweddi a maddau bob diffyg a bai drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Dewi Morris